**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 12 Mawrth 2014 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Dewi Owen, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Mr Huw Evans (Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion), Mr Paul Fowles (Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Al Crisp (Outward Bound Wales), Dr Alun Stedman (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Llþr B. Jones | - | Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr William Stockford | - | Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (dros dro) |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John Wynn Jones, Mike Stevens, (Cyngor Gwynedd), David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi).

**1. GAIR O GROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac yn arbennig i Mr William Stockford, Cymhorthydd yr Harbwr, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol.

2. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 5 Mawrth 2013.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau – Cylch Gorchwyl**

(i) Cyfeiriwyd at gylch gorchwyl y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau a oedd yn cyfarch Aelodaeth, Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd, Cworwm a Phleidleisio, Amlder Cyfarfodydd a swyddogaethau'r Pwyllgor, sydd i'w fabwysiadu mor fuan â phosibl er mwyn cysoni trefniadaeth

y pedwar Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr.  Pwysleisiwyd nad oedd Pwyllgorau Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli yn rhai statudol a bod y cylch gorchwyl yn creu fframwaith i ymgynghori gyda defnyddwyr yr Harbwr.  Pan drafodwyd yr Aelodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Ymgynghorol amlygwyd pryder bod cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned yn cael ei gyfyngu i un Aelod.  Eglurwyd mai un cynrychiolydd o'r Cynghorau Tref perthnasol sy'n gwasanaethu ar Bwyllgorau Harbwr Porthmadog a Phwllheli.  Pwysleiswyd ymhellach y byddir yn cyfyngu'r materion i'w trafod ar y Rhaglen i faterion sy'n allweddol bwysig i'r Harbwr megis cyllidebau, gweithrediad yr harbwr, diogelwch, staffio, rhaglenni gwaith, a.y.b. ac y byddai modd trafod materion tu allan i gylch gorchwyl yr Harbwr yn uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Morwrol.

(ii) Er mwyn ffurfioli trefniadau, awgrymwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai llythyru gyda phob un o'r sefydliadau sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol (ynghyd â'r Bad Achub) fel a ganlyn:

(a) Cadarnhau rôl a phwrpas y Pwyllgor
(b) Gwahodd enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y Pwyllgor
(c) Gofyn i sefydliadau nodi'r rhesymau a'r cyfleoedd lle gwelir y byddant yn gallu cyfrannu fel sefydliad at waith y Pwyllgor Ymgynghorol

(iii) Hyderir y gellir gweithredu'r trefniadau yn unol â'r cylch gorchwyl ym mis Hydref 2014. Awgrymir ethol hyd at saith aelod i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr Harbwr a phe byddai mwy o sefydliadau yn dangos diddordeb na'r hyn sydd ei angen fel rhan o'r Aelodaeth mater i'r Aelod Cabinet fydd ystyried a dewis a dethol yr Aelodaeth derfynol.

(iv) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Parhau i fynegi anfodlonrwydd i leihau nifer cynrychiolaeth o'r Cynghorau Cymuned / Tref ar aelodaeth y Pwyllgor Harbwr h.y. un aelod yn hytrach na thri fel sy'n bodoli'n bresennol.   Teimlwyd y dylid cydweithio ar sail partneriaeth ac o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni rhaid bod yn fwy creadigol a dychmygol ac y byddai mwy o gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned yn fanteisiol ar gyfer hyn.
(b) Yn y gorffennol bu i weithgorau gael ei sefydlu a oedd yn llwyddiannus ac yn cydweithio gyda'r Harbwr Feistr
(c) Byddai'r trefniadau newydd yn sicrhau bod materion yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor ac felly yn cryfhau unrhyw weithrediadau a wneir gan y Pwyllgor Ymgynghorol
(d) Nad oedd y Bad Achub erioed wedi enwebu cynrychiolydd yn swyddogol i wasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol oherwydd bod tri neu bedwar o'r Aelodau sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Pwyllgor yn aelodau o'r Bad Achub hefyd

(v) Mewn ymateb i'r uchod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n croesawu ail-sefydlu'r gweithgorau er mwyn gwneud defnydd o brofiad ac arbenigedd. Ychwanegwyd y byddai'n gyfnod newydd i Aberdyfi yn sgil apwyntiadau newydd i'r Harbwr. Pwysleiswyd bod cyfarfodydd o'r Pwyllgor Ymgynghorol yn gyfarfodydd cyhoeddus ac y byddai croeso i unrhyw unigolyn fynychu a gwrando ar y drafodaeth. Er bod y cylch gorchwyl arfaethedig yn lleihau y nifer o gynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned / Tref bydd yn bosibl i Aelodau eraill o'r Cyngor Cymuned /Tref fynychu y cyfarfodydd ac fe fydd hawl anfon eilydd yn absenoldeb y cynrychiolydd.

**Penderfynwyd:** **(a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Anfon llythyr i'r holl sefydliadau sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol ynghyd â'r Bad Achub fel amlinellir yn (ii) (a), (b), a (c) uchod.**

**(B) Cod Diogelwch Harbyrau**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd wedi derbyn unrhyw sylwadau gan Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar gynnwys y Cod Diogelwch ac felly cymerir yn ganiataol bod y Cod i'w gymeradwyo. Fe fyddir yn ystod yr wythnosau nesaf yn ei argraffu a'i ddosbarthu i'r sefydliadau perthnasol.

(ii) Amlygwyd pryder gan sawl Aelod ynglŷn â chyfrifoldeb diogelwch y cyhoedd sy'n disgyn ar ysgwyddau'r Harbwr Feistr yn deillio o ddefnydd y foryd gan ddefnyddwyr sydd yn lansio o Ynys Las, Ceredigion. Hyderir y bydd y Cod Diogelwch yn fodd o roi grym ychwanegol a chyfrifoldeb o safbwynt diogelwch ar ran awdurdod Ceredigion.

(ii) Oherwydd natur y ffin rhwng moryd Ceredigion a'r Harbwr, bod cymhlethdodau yn codi'n aml ac y dylid cofio bod gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau bwerau a rôl yng nghyswllt safonau diogelwch ac y dylid gwneud defnydd ohonynt.

(iii) Mewn ymateb, nodwyd y pryder uchod gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a chadarnhawyd o safbwynt atebolrwydd am ddiogelwch morwrol y noda'r canllawiau mai'r Cabinet fel Deilydd Dyletswydd fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar ran yr Awdurdod Harbwr am reoli gweithgareddau o fewn yr Harbwr. Nodwyd ymhellach bod y Cod Diogelwch yn gymharol newydd ac nid oedd pob awdurdod wedi ei fabwysiadu. Yn sgil y pryderon, awgrymwyd y byddai'n fuddiol ysgrifennu ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol i'r swyddog priodol yng Ngheredigion i ddwyn sylw i'r pryderon amlygwyd yn ogystal ag ymchwilio i'r hyn all Gwylwyr y Glannau gynnig.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a chymeradwyo'r Cod Diogelwch Harbyrau.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ysgrifennu llythyr, ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol hwn, i amlygu pryderon ynglŷn â chadw trefn ar lansio llestrau / badau dwr personol o Ynys Las, Ceredigion ac yn benodol o safbwynt safonau diogelwch y cyhoedd.**

**(C) Mordwyo ac Angorfeydd**

(i) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod bwi'r Tramwy wedi bod oddi ar y safle ers rhai misoedd ond sicrhawyd y byddai'r cymhorthion yn ôl ar safle cyn Gŵyl y Pasg i gynnwys hefyd Bwi Rhif 1 ynghyd â'r golau yn ôl ar Fwi Rhif 2.

(ii) Mynegodd Aelod bod safon y cymhorthion yr Haf diwethaf yn arbennig o dda.

(iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r drefn pan fo diffyg cymhorthydd ar y safle, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn anfon rhybudd i forwyr a bod cyfrifoldeb ar forwyr hefyd i gysylltu hefo'r Harbwr Feistr o flaen llaw i gael cyngor ynglŷn â threfniadau.

(iv) O safbwynt effaith y tywydd garw a brofwyd eleni, roedd y buddsoddiad a fuddsoddwyd yn Aberdyfi wedi gwrthsefyll y gwyntoedd cryfaf. Esboniwyd ymhellach bod gwaith yn mynd rhagddo i adfer wal ger yr Eglwys ac y bydd y gwaith i'r llwybr pren wedi ei gwblhau erbyn mis Mai. Tra'n derbyn bod y tywod wedi bod yn broblemus, eglurwyd bod staff wedi bod yn cynorthwyo i glirio'r gwymon, a.y.b. Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn £400,000 ar gyfer gwaith adfer yn dilyn y stormydd a hyderai'r Prif Beiriannydd y byddai'r tywod wedi ei glirio erbyn Gwyl y Pasg ond nid oedd dyddiad pendant wedi ei bennu.

(v) Adroddodd Aelod bod tywod wrth ymyl y Clwb Hwylio wedi ei osod mewn pentwr a gofynnwyd am eglurhad ynglyn â'i berchnogaeth a lle i'w waredu. Esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n ofynnol rhoi'r tywod yn ôl ar y traeth os nad yw wedi ei lygru gydag olew.

(vi) Ychwanegodd y Cadeirydd bod pentwr o dywod ar y maes parcio yn Aberdyfi ac addawodd y Prif Beiriannydd gadw mewn cysylltiad â'r Cadeirydd i gadarnhau'r dyddiad y byddir yn clirio'r tywod fel bo modd cysylltu â Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrdd, fel bo modd cyd-gordio'r gwaith o glirio'r maes parcio'r un pryd.

(vii) O brofiad yn y gorffennol o symud tywod, roedd y Bad Achub wedi profi anawsterau gyda thipyn o ostyngiad i'r traeth ac yn amhosibl gyrru lawr y llithrfa. Credir bod angen rhoi ystyriaeth bellach ynglyn â phroffilio'r traeth er mwyn goresgyn y problemau hyn.

(viii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag atgyweirio'r wal wrth ymyl yr Eglwys, eglurodd y Prif Beiriannydd bod hyd o 60m yn cael ei hatgyweirio ac fe fyddir yn cychwyn ar y gwaith ym mis Medi ond yn y cyfamser sicrhawyd y byddir yn cadw golwg ar ei chyflwr rhag gwaethygu neu fod yn beryglus.

(ix) Derbyniwyd adroddiad cadarnhaol gan Dŷ'r Drindod ynglyn â chyflwr y bwiau. Nodwyd ymhellach bod yr angorfeydd wedi eu cynnal a'i cadw. Gohebwyd â'r cwsmeriaid a hyd yma dychwelwyd 60 ffurflen yn ôl.

(x) Nodwyd y byddir yn parhau gyda'r gwasanaeth o waredu tân gwyllt (flachiau) ar gost o £2,500 a bwriedir sefydlu canolfan canolog fel bo modd i gwmnïau eu casglu o un lleoliad.

(xi) Mewn ymateb i sylw wnaed gan y Cadeirydd ynglyn â symud rwbel sydd wedi eu golchi ar y traeth o ganlyniad i'r stormydd diweddar, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn ffyddiog y gellir ymgymryd â'r dasg o fewn y gyllideb. Mewn rhai rhannau o Wynedd, nodwyd bod grwpiau gwirfoddol wedi ei sefydlu ac yn casglu'r sbwriel mewn pentyrrau i loriau eu casglu. Apeliwyd os oes diddordeb gan sefydliadau yn Aberdyfi i gynorthwyo byddir yn hynod ddiolchgar o hyn. Ategodd y Cadeirydd y byddai'n trafod hyn gyda'r Cyngor Cymuned a hyderir y gellir sefydlu grŵp i lanhau cyn Gwyl y Pasg.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(D) Cyllidebau Harbyrau**

(i) Cyflwynwyd taenlen gyllideb i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod a thywyswyd hwy drwy'r wybodaeth gan nodi bod cyfanswm gwariant rhedeg yr Harbwr yn £51,890 gyda'r wir wariant yn £35,124. O safbwynt incwm nodwyd bod targed o £34,700 wedi ei bennu i'r Harbwr gyda £24,430 wedi ei gasglu hyd ddiwedd Chwefror 2014 a olygai lleihad o £10,000. Cyfeiriwyd at y daflen chwyddiant ar gyfer pob un o'r gwasanaethau.

(ii) Nododd Aelod y byddai cyllideb cyhoeddusrwydd yn ddefnyddiol ac yr un pryd mynegodd anfodlonrwydd a beirniadaeth am y llun yn yr hysbyseb sy'n ymddangos yn "Practical Boat Owner" sy'n dangos llun bychan o'r traeth yn Aberdyfi o'i gymharu â lluniau o gychod yn Harbyrau Abermaw, Porthmadog, Pwllheli a Doc Victoria.

(iii) Tra'n derbyn y sylw, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd gan y Gwasanaeth arbenigedd i farchnata ac nad oedd ganddo gyllideb ar ei gyfer. Ychwanegwyd bod y traeth yn Aberdyfi yn ased i'r pentref ac yn denu miloedd o bobl yno pob haf.

(iv) Addawodd cynrychiolydd y Siambr Fasnach y byddai'n anfon lluniau i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a phwysleisiwyd yr angen i hysbysebu'r Harbwr yn Aberdyfi ond yr un pryd yn derbyn bod angen mwy o hysbysebu er mwyn denu sylw i Aberdyfi.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(DD) Gwelliannau**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Cadeirydd ynglyn â gwelliannau i wal y cei a bod y Gwasanaeth yn hynod ddiolchgar o gael arian i fedru darparu'r cynlluniau cychwynnol. Yng nghyd-destun pontwn, roedd y Gwasanaeth yn pryderu oherwydd y gwaith cynnal a'i gadw dros yr haf a'r gaeaf yn enwedig o ystyried bod y môr yn gallu bod yn eithaf garw.

(ii) Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod gynlluniau cychwynnol arfaethedig ar gyfer gwelliannau i wal y cei ac awgrymwyd i'r Aelodau rannu'n ddau grwp i astudio'r cynlluniau ac wedi hynny cyflwyno cwestiynau / sylwadau i'r Gwasanaeth. Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned nad oedd y cynlluniau wedi eu cymeradwyo a bod y gyllideb ar gyfer y gwaith cynllunio a'r cysyniad yn unig er mwyn cael seiliau yn barod ar gyfer trafodaethau pellach.

(iii) Yn dilyn archwilio'r cynlluniau, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Tra'n derbyn y cysyniad o beidio cael pontwn oherwydd y llanw, a.y.b. ei bod mewn cyfyng-gyngor ynglyn â graddiant y stepiau arfaethedig ar wal y cei oherwydd eu bod ar ongl bas rhagwelir ei fod yn creu platfform sy'n gwthio allan ac o ganlyniad yn creu perygl i gychod. Byddai'n well i greu stepiau mwy serth ac ddim ar ongl gyda rheiliau diogelwch.
- A fyddai'n opsiwn i ymestyn y stepiau i wely'r môr pe byddir yn eu gwneud yn fwy serth
- Y byddai'n fanteisiol hefyd i ystyried y posibilrwydd o wella'r mynediad i'r traeth wrth ymyl Bae'r Eglwys er mwyn gwneud yr Harbwr yn hwylus i'r defnyddwyr

(iv) Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol cynnal sesiwn "galw heibio" i ddefnyddwyr yr Harbwr i drafod materion sydd angen sylw yn gysylltiedig â'r cynllun arfaethedig yn Aberdyfi cyn symud ymlaen hefo'r dyluniadau terfynol.

(v) Ymhelaethodd Mr Huw Evans, Cynrychiolydd Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, ar ddatblygiadau i wella'r cyfleusterau drwy sefydlu craen ("Davit") ar gyfer pysgotwyr i lanio eu dalfa ar y lanfa. Eglurwyd y byddai'r craen yn cael ei osod 14 Mawrth yn ganolog i'r lanfa gyferbyn â'r canllaw gyda'r bwriad i'w gael ar ddefnydd cyn Gwyl Y Pasg. Mewn ymateb i ymholiadau, esboniwyd y byddai'n gallu symud 200 kg ac mai defnyddwyr dynodedig fyddai â'r hawl i'w ddefnyddio.

(vi) O safbwynt datblygiad i Adeilad y Bad Achub, nodwyd bod y gwaith wedi ei ohirio tan fis Hydref gyda'r gobaith o gael gwell tywydd ac yn y cyfamser datrys ychydig o faterion gyda'r Cyngor. Yn nhermau'r estyniad, bwriedir ail-edrych arno ond ni fydd gwahaniaeth enfawr o safbwynt gwaith ar yr adeilad ond efallai i'r gwaith gweithredol.

(vii) Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ynghlwm i'r gwaith uchod bwriedir gosod clo newydd er mwyn tynhau symudiadau cerbydau ar y cei. Er mwyn bod yn ymarferol a

cheisio rheoli'r sefyllfa gofynnir i unigolion gysylltu â'r Harbwr Feistr os yw cerbyd yn bwriadu aros yn hirach nag i lwytho / dadlwytho.

(viii) Cyfeirwyd at y canlyniadau dwr ymdrochi a nodwyd mai siomedig ydoedd y canlyniadau ar gyfer 2013 pan fethodd y dŵr gyrraedd safon ar ddau achlysur yn ystod tywydd garw. Nodwyd bod swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymchwilio i weld pam bod yr ansawdd dwr wedi methu a deallir bod Dwr Cymru wedi cael eu cosbi oherwydd y gwaith carthion ym Machynlleth. Fe wneir y profion dwy awr bob ochr i lanw isel ac mae modd i addasu'r cyfnod i'w cymryd 4 awr cyn a 4 awr naill ochr i ben llanw a fydd efallai yn rhoi canlyniad gwell. Pwysleiswyd yr angen i roi rhybuddion i warchod y cyhoedd rhag ymdrochi pan nad yw'r profion i fyny i safon. Opsiwn arall fyddai dynodi Traeth y Fynwent fel ardal i ymdrochi oherwydd bod ansawdd y dŵr ymdrochi wedi bod yn foddhaol ar gyfer 2013.

(ix) Mewn ymateb i'r sylw uchod, nododd Aelod ei bod yn bwysig i'r Cyngor ac i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatgan cwyn swyddogol nad oes gwaith wedi ei wneud i wella ansawdd y dŵr ymdrochi o ystyried eu bod yn ymwybodol o lefydd gan gynnwys safle carafanau sydd yn cyfrannu at lygredd i'r môr. Nodwyd o ddiddordeb, o edrych ar siartiau'r canlyniadau, bod yr ansawdd yn methu yn ystod gwyliau ysgol. Byddai'n ddiddorol gwneud profion ar ben llanw i ddistyll ac wedyn yn ôl ar ben llanw i fedru darganfod gwreiddiau'r llygredd.

(x) Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gwahodd swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol er trafodaeth bellach.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Peiriannydd Cynorthwyol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, drefnu sesiwn fel amlinellir yn (iv) uchod mewn lleoliad yn Aberdyfi i'r sefydliadau sydd yn rhan o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ar ddydd Mercher, 2 Ebrill 2014 er mwyn trafod a datrys unrhyw broblemau a ragwelir gyda'r cynllun cychwynnol o welliannau i wal y cei.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wahodd cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol i drafod profion ansawdd y dŵr ymdrochi.**

**(E) Staff Harbwr**

(i) Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Mr Paul Edwards, Harbwr Feistr Aberdyfi, bellach wedi ymddeol ers mis Hydref 2013. Er mwyn sicrhau presenoldeb yn Aberdyfi, penodwyd Mr William Stockford i'r swydd dros dro ac fe dynnir rhestr fer o ymgeiswyr am y swydd yn y dyddiau nesaf. Penodwyd Mr Hefin Richards yn Gymhorthydd Harbwr yn ddiweddar ac fe fydd yn cychwyn ar ei ddyletswyddau ar 7 Ebrill 2014 a olygai bod presenoldeb staff yn Aberdyfi am saith diwrnod o'r wythnos am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi. Roedd rhaglen waith cynhwysfawr i'w chwblhau gan gynnwys gwaith yn Nhywyn a Fairbourne ynghyd â rhoi blaenoriaeth i'r cymhorthion mordwyo.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ysgrifennu llythyr o ddiolch i Mr Paul Edwards am ei waith clodwiw fel Harbwr Feistr a dymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.**

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

**Penderfynwyd** **Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014.**

**CADEIRYDD.**